

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 4ydd o IONAWR 2016 YN SWYDDFA'R CYNGOR,NEUADD PONTIETS AM 7.00.

Presennol: Geraint Rosser (yn y gadair),Margaret Rees,Geoff Hewitt,Meic Bowen,Ian Evans, Tyssul Evans,Linda Williams,Heddwyn Jones,Alan Lewis a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Carrie Rees,Wendy Evans,Aled Williams,Ellis Jenkins a Richard Thomas

Materion Personol

1323 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i bawb.Deallwyd bod y Cynghorydd Richard Thomas gartref o'r Ysbyty ac ar wellhad yn araf.

1324 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 07/12/2015 fel rhai cywir.

1325 Materion yn codi.

Tud. 1 Cofnod Rhif 1245 - Parcio Tacsis ym Mhontiets. - Gan fod y sefyllfa wedi gwaethygu pasiwyd ein bod yn cysylltu ymhellach a'r Cyngor Sir a'r Heddlu ynglŷn â'r mater.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1326 Neuadd Gyhoeddus Bancffosfelen a Chrwbín - Y Swyddfa Bost -. Penderfynwyd danfon cyfraniad o £300 tuag at gynnal gwasanaeth y Swyddfa Bost.

1327 Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gar - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

1328 Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau 2016 - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

1329 Goleuadau Nadolig Llangyndeyrn - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

1330 Bobath Cymru - Llythyr yn diolch am y rhodd.

1331 Côr Merched Glannau'r Gwendraeth - Llythyr yn diolch am y rhodd.

1332 Dyfroedd Byw Pontnewydd - Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1333 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Gwahoddiad i Ddigwyddiad Ymgysylltu Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl– Nodwyd y llythyr.

1334 Dyfroedd Byw Pontnewydd- Adnewyddu Pont Bren dros y Gwendraeth Fawr - Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â'r mater.

Ceisiadau Cynllunio

1335

Ceisiadau Cynllunio:

- R & N J Edwards - Tŷ'r Stewart,Llangyndeyrn - Notis Symud Perth - Dim Gwrthwynebiad.
- Mr a Mrs E Jones – Fferm Cwm Eynon,Pedair Heol – Newid i Adeilad Bwyd Anifeiliaid –

Cyfarfod Safle ychwanegol i'w gynnal ar 5/01/16 am 9.00 y bore.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1336 Derbyniwyd adroddiadau ariannol Mis Rhagfyr 2015.

Adroddiad Ariannol Misol

- 1337** Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
- a)** Cyflog y Clerc - £371.25 (Mis Rhagfyr)
 - b)** Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Rhagfyr)
 - c)** Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £97.52 (Mis Rhagfyr)
 - ch)** HMRC (Treth)- £74.20 (Mis Rhagfyr)
 - d)** Ffon Symudol y Cyngor - £9.98
 - dd)** Treuliau'r Syrfêwr - £29.00
 - e)** Ffon y Syrfêwr - £30.00
 - f)** Stampiau - £14.04

Nodwyd bod y Cyngor wedi derbyn y drydedd ran o'r Presept - £15675.00.

Nodwyd bod dwr yn powndio ar y Cae Rygbi a'r 'Pill' wrth ochr y Neuadd. Penderfynwyd cysylltu â 'Natural Resources Wales' ynglŷn â'r mater.

1338 Cofnodion Is-Bwyllgor Cyllid – 16/12/15.

Wedi trafodaeth llwyr penderfynwyd derbyn argymhelliad yr Is-bwyllgor uchod ein bod yn codi Presept y Cyngor 2% am y flwyddyn 2016-2017

Materion Cynghorwyr

- 1339** Ian
- 2 Panel yn eisiau yn y Shelter ger Maesywern
 - Cysylltu ag Excel ynglŷn â'r goleuadau Nadolig yng Ngharwe.
 - Gofyn i Jonathan Edwards a Rhodri Glyn Thomas i godi deddf yn gorfodi caniatâd cynllunio wrth newid enw Tŷ neu Dir.
- 1340** Meic Carwe Cysylltu â Gary Baxter a'r Cynghorydd Jim Jones ynglŷn â dŵr ar hewl
- 1341** Linda Panels yn eisiau yn y Shelter ger 130 Heol y Meinciau, Pontiets
- 1342** Geraint Angen scalps yn Heol Mansant
- 1343** Heddwyn Siom bod y Cyngor Sir yn torri nôl ar addysg Oedolion yn y Sir.

Cyfarfod nesaf:- 1af o Chwefror 2016 yn Swyddfa'r Cyngor, Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch.
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd..... CADEIRYDD

Dyddiad.....

